SCHOOL IN-REACH SERVICE
GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION

# HYFFORDDIANT I STAFF ADDYSG

## Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion Caerdydd a'r Fro

Un o nodau craidd y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion yw uwchsgilio staff addysg i allu cefnogi anghenion lles emosiynol a meddyliol dysgwyr. Mae'r Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion wedi datblygu ystod o hyfforddiant ar les emosiynol a phynciau iechyd meddwl. Mae'r rhain ar gael am ddim i staff addysg sy'n gweithio yng Nghaerdydd a'r Fro.

### SESIYNAU DYSGU BYR

Cyflwyniadau byr, wedi'u recordio ymlaen llaw, i bynciau lles emosiynol ac iechyd meddwl ar gyfer staff addysg.

### Y SYLFEINI

Gweminarau i ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth ar sut i gefnogi lles emosiynol dysgwyr yn gyffredinol.

### ADEILADU GWYBODAETH

Gweminarau a gweithdai sy'n adeiladu gwybodaeth a dealltwriaeth ar bynciau a grwpiau mwy penodol.

### PECYN CYMORTH THERAPIWTIG

Gweithdai rhyngweithiol sy'n meithrin sgiliau a gwybodaeth i gyflwyno ymyriadau lles emosiynol.

### Y DULL HAENOG

Gall hyfforddiant sylfaenol fod o fudd i grwpiau staff cyfan, tra gallai pynciau arbenigol fod yn fwy priodol ar gyfer y rhai mewn rolau penodol h.y. Cydlynydd ADY, staff bugeiliol, arweinwyr lles, oedolion allweddol.

Mae ein pasbort ar gyfer dysgu yn aml yn cael ei adolygu a'i ddatblygu ar sail adborth. Ein nod yw datblygu ein hyfforddiant ar y cyd â chydweithwyr o wasanaethau iechyd, awdurdodau lleol ac addysg sy'n cefnogi plant a phobl ifanc.



Gweler y dudalen olaf am fanylion cofrestru a gwybodaeth gyswllt.

SCHOOL IN-REACH SERVICE · GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION · Emotional Wellbeing & Mental Health / Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl · CYPF Children, Young People & Family Health Services · PPIT Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc ac Iechyd Teuluol · GIG CYMRU NHS WALES · Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Cardiff and Vale University Health Board

# SESIYNAU DYSGU BYR

Mae ein hyfforddiant bitesize yn cynnig fideos byr, wedi'u recordio ymlaen llaw o dan 15-20 munud, sy'n rhoi trosolwg clir o bynciau allweddol i adeiladu dealltwriaeth gychwynnol a sgiliau ymarferol wrth weithio gyda phobl ifanc. Caiff y sesiynau hyn eu diweddaru'n rheolaidd. Y ffordd orau o aros yn gyfredol yw drwy wirio ein gwefan.

**CYFLWYNIAD I ORBRYDER** (15 MUNUD).

**CYFLWYNIAD I OCD** (15 MUNOD)

**CYFLWYNIAD I HWYLIAU ISEL** (10 MUNUD)

**CYFLWYNIAD I 'PACE'** (10 MUNUD)

**CYFLWYNIAD I TICIAU A SYNDROM TOURETTE** (10 MUNUD)

**CYFLWYNIAD I HUNAN-NIWED** (10 MUNUD)

**CYFLWYNIAD I MEWNGYMORTH YSGOLION** (10 MUNOD)

**I gael mynediad at yr hyfforddiant Bitesize canlynol, sganio'r cod QR:**

https://cavyoungwellbeing.wales/cy/pobl-ifanc/lles-emosiynol-ac-iechyd-meddwl/ein-gwasanaethau-2/school-in-reach/adnoddau-ar-gyfer-staff-addysg/

# Y SYLFEINI

Mae ein hyfforddiant sylfaenol yn cynnig man cychwyn clir a hygyrch i staff ar gyfer deall a chefnogi lles emosiynol dysgwyr. Mae'n adeiladu sylfaen gyffredin ar gyfer ein sesiynau pecyn offer therapiwtig ehangach a'n datblygiad parhaus o wybodaeth.

**CYFLWYNIAD I'R GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION** (1 AWR)
Cyflwyniad hyd awr i'r Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion a sut mae'n ymwneud â chyd-destun strwythur a gwasanaethau grwpiau gofal Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl (EWMH) sy'n rhan ohono. Mae'r sesiwn yn rhoi gwybodaeth i leoliadau addysg am bopeth mae angen i chi ei wybod am atgyfeiriadau a chael mynediad i wasanaethau. Mae'n rhannu gwybodaeth am strwythur y Tîm Mewngymorth Ysgolion a'n cynnig gwasanaeth (gan gynnwys hyfforddiant a grwpiau).

**PROFIADAU NIWEIDIOL YN YSTOD PLENTYNDOD (ACES) A GWEITHREDU SY'N YMWYBODOL O DRAWMA - LEFEL "YMWYBODOL O DRAWMA"** (MODIWL E-DDYSGU 1 AWR)
Mae'r cwrs hwn yn cyflwyno egwyddorion Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a gweithredu sy'n ymwybodol o drawma yng Nghymru. Datblygwyd y cwrs gan ACE Hub Cymru, sefydliad a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, i helpu gweithwyr proffesiynol a sefydliadau i ymgorffori dulliau trawma-wybodus cyffredinol yn eu gwaith. Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar y lefel "ymwybodol o drawma" ac mae'n anelu at gefnogi gwydnwch drwy gysylltiad, cynhwysiant a thosturi. Ymweld: https://acehubwales.com/

# ADEILADU GWYBODAETH

Mae'r pecynnau hyfforddi hyn yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'n hyfforddiant 'sylfeini' fel 'Deall ac Ymateb i Drallod' ac 'Gwreiddio 'PACE' yn yr Ystafell Ddosbarth'. Felly, byddem yn disgwyl i staff fod â gwybodaeth sylfaenol am y pynciau hyn eisoes, cyn cael mynediad at yr hyfforddiant 'adeiladu gwybodaeth'

## RHEOLI DIWEDD CYFNOD A PHONTIO YN EFFEITHIOL (3 AWR – WYNEB YN WYNEB)

Gweithdy rhyngweithiol 3 awr a fydd yn archwilio effaith pontio a diweddiadau ar ddysgwyr a staff, a'i nod yw adeiladu sgiliau a gwybodaeth ynghylch cymorth pontio cyffredinol a gwell i ddysgwyr a'u teuluoedd. Mae'r hyfforddiant yn darparu offer a gweithgareddau creadigol y gellir eu defnyddio yn ystod cyfnodau pontio a diweddiadau. Mae'r sesiwn yn un wyneb yn wyneb gan ei fod yn brofiadol ac yn caniatáu lle ar gyfer enghreifftiau ymarferol. **Uchafswm o 20 aelod o staff fesul grŵp, gan fod y sesiwn yn brofiadol ac yn caniatáu lle i enghreifftiau ymarferol.**

## 'PACE' AR WAITH (2 AWR – WYNEB YN WYNEB MEWN LLEOLIADAU UNIGOL)

Gweithdy 2 awr yn seiliedig ar astudiaethau achos i ymgorffori gwybodaeth o hyfforddiant 'Gwreiddio PACE yn yr Ystafell Ddosbarth' ymhellach. Cyfleoedd i ymarfer ymateb ag agwedd llawn PACE drwy ystod o astudiaethau achos a sefyllfaoedd sydd wedi'u hamlygu gan yr ysgol sy'n derbyn hyfforddiant. **Os hoffech chi gael sesiwn PACE ar Waith yn eich ysgol, trafodwch gyda'ch ymarferydd mewngymorth cysylltiedig. Ar gyfer ysgolion cynradd, e-bostiwch schoolinreach.cav@wales.nhs.uk a bydd y tîm yn cysylltu â chi.**

## CEFNOGI DYSGWYR MEWN TRALLOD (2.5 AWR – WYNEB YN WYNEB)

Gweithdy 2.5 awr i ystyried achosion ac effeithiau trallod a sut y gallai hyn edrych yn yr ystafell ddosbarth. Bydd yr ail hanner yn edrych ar ffyrdd o helpu dysgwyr mewn trallod, gan gynnwys offeryn i gefnogi gwiriadau lles gyda phobl ifanc.

## YMATEB I YMDDYGIAD Â DWY LAW (2 AWR – WYNEB YN WYNEB)

Sesiwn hyfforddi 2 awr sy'n cefnogi staff i ymateb i ymddygiadau ag ymagwedd "dwy-law" (o gysylltu a chywiro) i helpu plant a phobl ifanc i ffynnu. Nod yr hyfforddiant yw cynyddu sgiliau i aros yn llawn 'PACE' hyd yn oed wrth weithredu ffiniau. Dim ond os ydych eisoes wedi derbyn ein hyfforddiant 'Gwreiddio PACE yn yr Ystafell Ddosbarth' y dylech gadw lle ar yr hyfforddiant.

## ANGHENION SYNHWYRAIDD YN YR YSTAFEL DDOSBARTH (3 AWR – MEWN LLEOLIADAU UNIGOL)

Eleni, bydd Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion yn canolbwyntio ar weithio ar y cyd â'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol i hyrwyddo eu hyfforddiant anghenion synhwyraidd, a chefnogi gyda'r ddarpariaeth. Nod ein dull ar y cyd yw tynnu sylw at anawsterau synhwyraidd y gall dysgwyr eu profi a darparu offer ymarferol i gynorthwyo yn yr ystafell ddosbarth a'r lleoliad addysg. Mae'r sesiwn wyneb yn wyneb gan ei bod yn brofiadol ac yn caniatáu lle i enghreifftiau ymarferol. **Bydd ceisiadau am yr hyfforddiant hwn mewn lleoliadau uwchradd unigol yn cael eu hystyried rhwng gwasanaethau i ymateb orau i'r angen. Trafodwch gyda'ch ymarferydd Mewngymorth Ysgolion sy'n gysylltiedig â'ch ysgol/lleoliad.**

## YMARFER SY'N YMWYBODOL O DRAWMA (TIPSS) – LEFELAU "MEDRUS MEWN TRAEDMA" AC "UWCH" (6 AWR – WYNEB YN WYNEB)

Datblygwyd TIPSS gan Traumatic Stress Wales ac mae'n becyn hyfforddi a chynllun adnoddau wedi'i gynllunio i helpu gweithwyr proffesiynol i gefnogi pobl sydd wedi profi trawma. Mae'n cael ei anelu at bobl sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan School In-Reach ac yn cynnwys lefelau "medrus mewn trawma" a "uwch mewn trawma" i adeiladu dealltwriaeth o drawma a'r sgiliau ymarferol y gellir eu defnyddio wrth weithio gyda phlant sydd wedi profi trawma. Nodwch fod yr hyfforddiant hwn ar gael i leoliadau addysg yn unig yn Bro Morgannwg.

# PECYN CYMORTH THERAPIWTIG

Gweithdai rhyngweithiol sy'n meithrin sgiliau a gwybodaeth er mwyn cyd-gyflwyno ymyriadau lles emosiynol. Rhaid i fynychwyr feddu ar wybodaeth flaenorol am bynciau hyfforddi 'sylfaenol' a 'meithrin gwybodaeth'.

**COEDEN BYWYD** (3 AWR – WYNEB YN WYNEB)

Yn y gweithdy rhyngweithiol 3 awr hwn, bydd y cyfranogwyr yn profi'r ymyrraeth Coeden Bywyd drostynt eu hunain. Math o therapi naratif yw Coeden Bywyd, a all helpu i adeiladu straeon am gryfder a gwydnwch. Bydd y profiad a'r wybodaeth a geir yn y gweithdy hwn yn sylfaen sgiliau i allu cyd-hwyluso ymyriadau grŵp Coeden Bywyd.




**PETHAU RHYFEDD YW TEIMLADAU/FEELINGS ARE FUNNY THINGS (FAFT)** (3 AWR FESUL GWEITHDY – WYNEB YN WYNEB)

Cynigir y gweithdai hyn i leoliadau addysg sy'n cyd-hwyluso'r rhaglen grŵp 'Pethau Rhyfedd yw Teimladau' ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion:

**Defnyddio Dull Adrodd Storïau i adeiladu Sgiliau Llythrennedd Emosiynol (3 awr):** Gweithdy rhyngweithiol yn seiliedig ar brofiad, yn archwilio ffyrdd o ddefnyddio dull adrodd storïau a gweithgareddau i adeiladu llythrennedd emosiynol.




Os ydych chi'n ysgol uwchradd sydd â diddordeb mewn rhedeg grŵp Pethau Rhyfedd yw Teimladau yn eich ysgol, trafodwch ofynion hyfforddi gyda'ch ymarferydd mewngymorth cysylltiedig.

Ar gyfer ysgolion cynradd sydd â diddordeb, e-bostiwch schoolinreach.cav@wales.nhs.uk a bydd y tîm yn cysylltu â chi.

# MYNEDIAD I HYFFORDDIANT



**AR GYFER YSGOLION UNIGOL A LLEOLIADAU ADDYSG**
Gellir darparu hyfforddiant o fewn ysgolion neu leoliadau unigol ac fe'i trefnir drwy gyfarfodydd blaenoriaethu tymhorol. Mae ein gallu i gynnig hyfforddiant i'r holl staff mewn ysgolion cynradd yn gyfyngedig, felly cysylltwch â ni i holi os yw hynny'n rhywbeth yr hoffech ei drefnu.

Caiff diweddariadau hyfforddiant eu cyfathrebu'n rheolaidd drwy ein cylchlythyr a'n gwefan. Ymweld: https://cavyoungwellbeing.wales/cy/pobl-ifanc/lles-emosiynol-ac-iechyd-meddwl/ein-gwasanaethau-2/school-in-reach/

**neu sganiwch y cod QR**

**GWEFAN** **CYLCHLYTHYR**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â schoolinreach.cav@wales.nhs.uk

Ewch i **www.cavyoungwellbeing.wales/cy/** am wybodaeth ac adnoddau Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl.